



# Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar Awtistiaeth i Gymru

Mae'r fframwaith hwn wedi cael ei addasu o The NHS Education for Scotland  
Autism Training Framework. Optimising Outcomes, (Tachwedd, 2014).



# Ymwybodol o Awtistiaeth

## Diffiniad:

Rwy'n debygol o weithio mewn rôl sy'n wynebu'r cyhoedd, ond dim ond petawn yn derbyn gwybodaeth i fod yn ymwybodol y byddwn yn adnabod os oes awtistiaeth ar rywun.

## Lefel y wybodaeth sydd ei hangen:

- Ymwybyddiaeth ar lefel is am awtistiaeth

## Elfennau craidd y dysgu/hyfforddiant:

### Sut mae awtistiaeth yn cael ei ddiffinio a sut y caiff diagnosis ei wneud

- Anawsterau y gall unigolion eu hwynebu wrth gael mynediad at fusnesau/darpariaeth
- Addasiadau sylfaenol i gyfathrebu
- Cynnig help ychwanegol

## Adnoddau defnyddiol:

Cynllun Weli Di Fi?

[www.ASDinfoWales.co.uk/can-you-see-me](http://www.ASDinfoWales.co.uk/can-you-see-me)

Cynllun Ymwybodol o ASA

[www.ASDinfoWales.co.uk/ASDaware](http://www.ASDinfoWales.co.uk/ASDaware)

Sefydliad sy'n Ymwybodol o ASA

[www.ASDinfoWales.co.uk/asd-aware-organisations](http://www.ASDinfoWales.co.uk/asd-aware-organisations)

# Hyddysg am Awtistiaeth

## Diffiniad:

Rwy'n debygol o weithio mewn rôl lle y gallai unigolion gyflwyno eu hunain gyda nodweddion posibl o awtistiaeth, fel rhan o'm gwaith o ddydd i ddydd, er na fyddwn o bosibl yn ymwybodol ohono.

Efallai y byddwn yn dod ar draws unigolion ag awtistiaeth yn fy ngwaith o ddydd i ddydd ac efallai y bydd angen i mi allu adnabod pan mae ymatebion neu ymddygiad rhywun yn ymddangos yn anarferol ac i addasu fy ymddygiad fy hunan.

## Lefel y wybodaeth sydd ei hangen:

- Ymwybyddiaeth o awtistiaeth

## Elfennau craidd y dysgu/hyfforddiant:

**Gwahaniaeth; anabledd; anabledd cudd; rhwystrau i ofal**

### Ffeithiau a nodweddion craidd

- Cyfathrebu cymdeithasol gydag awtistiaeth
- Trefnau arferol ac anhyblygrwydd gydag awtistiaeth

### Ffactorau cysylltiedig

- Prosesu synhwyrdd
- Cyflyrau cyffredin sy'n cyd-ddigwydd
- Effaith ar yr unigolyn/teulu a chynhalwyr

## Adnoddau defnyddiol:

Cynllun Ymwybodol o ASA

[www.ASDinfoWales.co.uk/ASDaware](http://www.ASDinfoWales.co.uk/ASDaware)

Sefydliad sy'n Ymwybodol o ASA

[www.ASDinfoWales.co.uk/asd-aware-organisations](http://www.ASDinfoWales.co.uk/asd-aware-organisations)

Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth i Ddarparwyr Hamdden

[www.ASDinfoWales.co.uk/leisure-staff](http://www.ASDinfoWales.co.uk/leisure-staff)

Gweithio gydag Awtistiaeth

[www.ASDinfoWales.co.uk/working-with-autism-scheme](http://www.ASDinfoWales.co.uk/working-with-autism-scheme)

Cynllun Adnoddau Dynol (AD) – Gweithio gydag Awtistiaeth

[www.ASDinfoWales.co.uk/positive-about-working-with-autism-hr-scheme](http://www.ASDinfoWales.co.uk/positive-about-working-with-autism-hr-scheme)

# Medrus gydag Awtistiaeth

## Diffiniad:

Rwy'n gweithio o fewn gwasanaeth lle gallaf ddod ar draws unigolion sydd ag awtistiaeth. Gall fy ngwaith ganolbwyntio ar agweddau penodol o'r unigolyn, ond mae angen i mi allu dynodi awtistiaeth posibl er mwyn gallu addasu fy arfer.

Rwyf angen bod yn ymwybodol o awtistiaeth er mwyn addasu fy arfer ac er mwyn gallu cyfeirio atynt os wyf yn ansicr neu fod angen eglurhad amaf ar ddiagnosis, cefnogaeth, rheolaeth neu anghenion ymyrraeth yr unigolyn.

## Lefel y wybodaeth sydd ei hangen:

- Ymwybyddiaeth o'r ffordd mae awtistiaeth yn cyflwyno ei hunan
- Sgrinio ar gyfer awtistiaeth
- Addasiadau craidd i arferion gwaith safonol ac amgylcheddau ffisegol

## Elfennau craidd y dysgu/hyfforddiant:

### Sut mae awtistiaeth yn cael ei ddiffinio a sut y caiff diagnosis ei wneud

- Sgrinio ar gyfer awtistiaeth
- Cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd a diagnosis gwahaniaethol
- Sensitifrwydd synhwyrdd

### Atgyfeirio neu gyfeirio at wasanaethau mwy arbenigol – llwybr ymgynghori/gofyn am ymgynghoriad/llwybr atgyfeirio

### Ymyrraeth a chefnogaeth

- Arfer sydd wedi'i addasu i ddarparu ar gyfer nodweddion craidd, gan gynnwys materion cyfathrebu a synhwyrdd
- Cyflwyno gwybodaeth i unigolion, teuluoedd a chynhalwyr
- Cyfrinachedd a chaniatâd i dderbyn triniaeth
- Gweithio mewn partneriaeth

## Adnoddau defnyddiol:

E-ddysgu ar gyfer Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Proffesiynol

[www.ASDinfoWales.co.uk/asdaware-practitioner-children](http://www.ASDinfoWales.co.uk/asdaware-practitioner-children)

[www.ASDinfoWales.co.uk/asdaware-practitioner-adults](http://www.ASDinfoWales.co.uk/asdaware-practitioner-adults)

E-ddysgu i Ddeintyddion

[www.ASDinfoWales.co.uk/videos-for-professionals](http://www.ASDinfoWales.co.uk/videos-for-professionals)

E-ddysgu i Feddygon Teulu

[www.ASDinfoWales.co.uk/videos-for-professionals](http://www.ASDinfoWales.co.uk/videos-for-professionals)

Dysgu gydag Awtistiaeth – Blynyddoedd Cynnar

[www.ASDinfoWales.co.uk/early-years](http://www.ASDinfoWales.co.uk/early-years)

Dysgu gydag Awtistiaeth – Ysgolion Cynradd

[www.ASDinfoWales.co.uk/primary-school](http://www.ASDinfoWales.co.uk/primary-school)

Dysgu gydag Awtistiaeth – Ysgolion Uwchradd

[www.ASDinfoWales.co.uk/secondary-school](http://www.ASDinfoWales.co.uk/secondary-school)

# Sgiliau Awtistiaeth Uwch

## Diffiniad:

Fel rhan o'm rôl, gallaf gymryd rhan mewn asesiadau diagnostig o fewn tîm neu gynnal gwaith asesu a sgrinio cychwynnol ar unigolion o fewn fy ngwasanaeth i'w cyfeirio at wasanaeth arbenigol ar gyfer diagnosis gwahaniaethol neu ail farn.

Rwy'n debygol o weithio mewn tîm lle, fel rhan o'm gwaith dyddiol, mae unigolion yn debygol o gyflwyno eu hunain gyda nodweddion posibl o awtistiaeth.

Yn fy ngwaith rheoli ac ymyrraeth rheolaidd, efallai y bydd angen i mi ystyried fod awtistiaeth ar rywun a chynnal gwaith sgrinio ac asesu cychwynnol er mwyn addasu fy arfer.

Os yw'n achos cymhleth, efallai y bydd angen i mi gyfeirio at wasanaeth arbenigol ar gyfer asesiad llawn neu sicrhau goruchwyliaeth arbenigol ar gyfer fy asesiad.

## Lefel y wybodaeth sydd ei hangen:

- Sgrinio ac asesiad Diagnostig o awtistiaeth
- Diagnosis gwahaniaethol a chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd; nifer yr achosion; trywydd; deilliant

## Elfennau craidd y dysgu/hyfforddiant:

### Sut mae awtistiaeth yn cael ei ddiffinio a sut y rhoddir diagnosis o awtistiaeth

- Systemau a meini prawf diagnostig
- Dulliau sgrinio a rhoi diagnosis ar gyfer awtistiaeth
- Aseidiadau integredig
- Deilliannau a chyfeirio at wasanaethau mwy arbenigol

### Cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd a diagnosis gwahaniaethol

- Ffactorau cysylltiedig: prosesu synhwyraidd
- Cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd: niwroddatblygiadol, cyflyrau iechyd meddwl, cyflyrau meddygol
- Effaith ar yr unigolyn a'r teulu o ran cyflyrau cymhleth ac sy'n cyd-ddigwydd

### Ymyrraeth a chefnogaeth

- Canllawiau'r DU a Chymru ar gyfer rheolaeth, cefnogaeth ac ymyrraeth
- Ymyrraeth a chefnogaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran arferion gwaith ac amgylcheddau ffisegol a addasir
- Cefnogaeth wedi'r diagnosis i unigolion, teuluoedd a chynhalwyr
- Dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Dulliau ymyrraeth seico-gymdeithasol ar draws hyd bywyd yr unigolyn ar gyfer symptomau ASA craidd a chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd

## Elfennau craidd y dysgu/hyfforddiant:

- Aseidiadau risg a rheoli risg sy'n cael eu haddasu ar gyfer ASA

### Rheoli a Chyflwyno Gwasanaeth

- Gweithio mewn partneriaeth
- Sgiliau goruchwyllo, hyfforddiant a gwasanaethau ymgynghorol arbenigol

## Adnoddau defnyddiol:

Pecyn cymorth i Glinigwyr

[www.ASDinfoWales.co.uk/clinicians-toolkit-children](http://www.ASDinfoWales.co.uk/clinicians-toolkit-children)

[www.ASDinfoWales.co.uk/clinicians-toolkit-adults](http://www.ASDinfoWales.co.uk/clinicians-toolkit-adults)

Pecynnau cymorth i Ymarferwyr

[www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-children-with-asd](http://www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-children-with-asd)

[www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-adults-with-asd](http://www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-adults-with-asd)

Awtistiaeth yn AMLWG

[www.ASDinfoWales.co.uk/recognise-asd-child](http://www.ASDinfoWales.co.uk/recognise-asd-child)

[www.ASDinfoWales.co.uk/recognise-asd-adult](http://www.ASDinfoWales.co.uk/recognise-asd-adult)

E-ddysgu ar gyfer Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Proffesiynol

[www.ASDinfoWales.co.uk/asdaware-practitioner-children](http://www.ASDinfoWales.co.uk/asdaware-practitioner-children)

[www.ASDinfoWales.co.uk/asdaware-practitioner-adults](http://www.ASDinfoWales.co.uk/asdaware-practitioner-adults)

E-ddysgu i Ddeintyddion

[www.ASDinfoWales.co.uk/videos-for-professionals](http://www.ASDinfoWales.co.uk/videos-for-professionals)

E-ddysgu i Feddygon Teulu

[www.ASDinfoWales.co.uk/videos-for-professionals](http://www.ASDinfoWales.co.uk/videos-for-professionals)

# Arbenigedd mewn Awtistiaeth

## Diffiniad:

Rwy'n cynnal asesiadau ar ymddygiad cymhleth yn rheolaidd ac yn cynnig safbwyntiau diagnostig gwahaniaethol ar achosion cymhleth ynghyd â hyfforddi a goruchwyllo eraill wrth roi diagnosis.

Rwy'n debygol o weithio o fewn gwasanaeth arbenigol neu i fod yn cymryd cyfrifoldeb dros asesiadau diagnostig arbenigol gan reoli staff eraill sy'n gweithio yn y maes hwn o fewn fy ngwasanaeth neu wasanaethau generig eraill yn yr ardal.

Rwy'n debygol o gynnig hyfforddiant awtistiaeth a gwasanaethau ymgynghorol i ystod o staff a gwasanaethau.

Rwy'n ysgrifennu cynlluniau cefnogi sydd ag elfennau lluosog ac yn cynnig barn arbenigol ar achosion cymhleth ynghyd â hyfforddi a goruchwyllo eraill mewn dulliau ymyrraeth clinigol ar ASA a addasir ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth yng nghyd-destun y sylfaen dystiolaeth gyfyngedig sy'n bodoli eisoes.

Rwy'n debygol o weithio o fewn gwasanaeth arbenigol neu i fod yn cymryd cyfrifoldeb dros ddulliau ymyrraeth clinigol arbenigol gan reoli staff eraill sy'n gweithio yn y maes hwn o fewn fy ngwasanaeth neu wasanaethau generig eraill yn yr ardal.

## Lefel y wybodaeth sydd ei hangen:

- Ystod o ddulliau sgrinio ac asesu; asesiadau risg; diagnosis gwahaniaethol; cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd
- Tystiolaeth wyddonol bresennol
- Cymhwyster hyfforddwr; gwasanaethau ymgynghorol a goruchwyllo
- Aseiad risg sydd wedi'i addasu; diagnosis gwahaniaethol; cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd; dulliau ymyrraeth sydd ag elfennau lluosog ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth

## Elfennau craidd y dysgu/hyfforddiant:

### Sut mae awtistiaeth yn cael ei ddiffinio a sut y rhoddir diagnosis o awtistiaeth

- Systemau a meini prawf diagnostig
- Dulliau sgrinio a rhoi diagnosis ar gyfer awtistiaeth
- Deilliannau a chyfeirio at wasanaethau mwy arbenigol

### Cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd a diagnosis gwahaniaethol

- Cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd: niwroddatblygiadol, cyflyrau iechyd meddwl, cyflyrau meddygol/geneteg
- Proffiliau unigol mewn awtistiaeth

## Elfennau craidd y dysgu/hyfforddiant:

- Effaith ar yr unigolyn a'r teulu mewn perthynas â chyflyrau cymhleth ac sy'n cyd-ddigwydd
- Ffactorau cysylltiedig: prosesu synhwyraidd a dulliau ymyrraeth synhwyraidd

### Ymyrraeth a chefnogaeth

- Canllawiau'r DU a Chymru ar gyfer rheolaeth, cefnogaeth ac ymyrraeth
- Anghenion cefnogi wedi diagnosis ar gyfer problemau sy'n cyflwyno eu hunain mewn ffordd arbennig o gymhleth i unigolion, teuluoedd a chynhalwyr
- Dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion
- Ymyriadau seico-gymdeithasol ar gyfer achosion cymhleth ar gyfer hyd bywyd o ran symptomau ASA craidd a chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd
- Ymyrraeth a chefnogaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas ag arferion gwaith ac amgylcheddau ffisegol sydd wedi'u haddasu
- Aseiad risg a rheolaeth arbenigol dros risg o fewn fframwaith deddfwriaethol a pholisi

### Rheolaeth a Chyflwyno Gwasanaeth

- Gwaith Partneriaeth amlasiantaethol
- Sgiliau goruchwyllo, hyfforddiant ac ymgynghorol arbenigol
- Cynllunio cyflwyno gwasanaeth
- Meithrin gallu

### Hyfforddiant i eraill i sgrinio, asesu a rhoi diagnosis

- Ymgynghori a goruchwyllo ar asesiadau a rhoi diagnosis

## Adnoddau defnyddiol:

Pecynnau cymorth i Glinigwyr

[www.ASDinfoWales.co.uk/clinicians-toolkit-children](http://www.ASDinfoWales.co.uk/clinicians-toolkit-children)

[www.ASDinfoWales.co.uk/clinicians-toolkit-adults](http://www.ASDinfoWales.co.uk/clinicians-toolkit-adults)

Pecynnau cymorth i Ymarferwyr

[www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-children-with-asd](http://www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-children-with-asd)

[www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-adults-with-asd](http://www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-adults-with-asd)

Awtistiaeth yn AMLWG

[www.ASDinfoWales.co.uk/recognise-asd-child](http://www.ASDinfoWales.co.uk/recognise-asd-child)

[www.ASDinfoWales.co.uk/recognise-asd-adult](http://www.ASDinfoWales.co.uk/recognise-asd-adult)

# Adnoddau Defnyddiol

## Cynllun Ymwybodol o ASA

Mae'r cynllun e-ddysgu generig hwn yn cynnig trosolwg sylfaenol o awtistiaeth ac yn cael ei gefnogi gan gynllun ardystio. Gall unigolion gymryd rhan yn y cynllun yma:

[www.ASDinfoWales.co.uk/ASDaware](http://www.ASDinfoWales.co.uk/ASDaware)

## Cynllun Ymwybodol o ASA i Sefydliadau

a gall sefydliadau gofrestru i fod yn sefydliad sy'n ymwybodol o awtistiaeth yma:

[www.ASDinfoWales.co.uk/asd-aware-organisations](http://www.ASDinfoWales.co.uk/asd-aware-organisations)

## Cynllun Weli Di Fi?

Nod y cynllun hwn yw gwella dealltwriaeth (ac felly mynediad) ar draws pob darpariaeth gymunedol. Bydd gwybodaeth sydd wedi'i thargedu ar gyfer ystod o fusnesau a gwasanaethau (megis siopau'r stryd fawr, archfarchnadoedd, gweithgareddau hamdden a chymdeithasol, siopau trin gwallt, banciau ac ati) i helpu staff i adnabod pan fo awtistiaeth ar rywun ac i addasu eu ffyrdd yn unol â hynny. Cyflwynir adnoddau i unigolion sydd ag awtistiaeth er mwyn eu galluogi i roi gwybod i eraill fod ganddynt awtistiaeth. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar:

[www.ASDinfoWales.co.uk/can-you-see-me](http://www.ASDinfoWales.co.uk/can-you-see-me)

## Cynllun Ymwybodol o Awtistiaeth i Ddarparwyr Hamdden

Nod y cynllun hwn yw cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth am anghenion unigolion sydd ag awtistiaeth ymysg y rheini sy'n Cefnogi Plant ac Oedolion sydd ag Awtistiaeth i gael Mynediad at Weithgareddau Chwaraeon a Hamdden. Mae'r cynllun yn cynnwys adnodd e-ddysgu sydd ar gael ar ffurf PowerPoint neu PDF, ynghyd â chynllun ardystio. Mae'r adnodd am ddim a gellir cael mynediad ato trwy:

[www.ASDinfoWales.co.uk/leisure-staff](http://www.ASDinfoWales.co.uk/leisure-staff)

## Gweithio gydag Awtistiaeth

Nod y cynllun yw cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth am anghenion unigolion sydd ag awtistiaeth ymysg y sawl sy'n eu cefnogi i sicrhau cyflogaeth. Mae'r cynllun yn cynnwys adnoddau e-ddysgu sydd ar gael ar ffurf fideo, PowerPoint neu PDF, ochr yn ochr â chynllun ardystio. Mae'r adnoddau am ddim i gael mynediad iddynt trwy:

[www.ASDinfoWales.co.uk/working-with-autism-scheme](http://www.ASDinfoWales.co.uk/working-with-autism-scheme)

## Cynllun Adnoddau Dynol (AD) – Gweithio gydag Awtistiaeth

Nod y cynllun yw cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion unigolion sydd ag awtistiaeth yn y gweithle. Mae'n rhoi trosolwg o'r anawsterau y bydd unigolion sydd ag awtistiaeth yn eu profi yn y gweithle ac yn cynnig cyngor ar sut y gall gweithwyr AD proffesiynol / cyflogwyr sicrhau fod y gweithle fwy o fewn cyrraedd i bobl ag awtistiaeth. Mae'r cynllun yn cynnwys adnodd e-ddysgu sydd ar gael ar ffurf PowerPoint neu PDF ochr yn ochr â chynllun ardystio. Mae'r adnoddau am ddim i gael mynediad iddynt trwy:

[www.ASDinfoWales.co.uk/positive-about-working-with-autism-hr-scheme](http://www.ASDinfoWales.co.uk/positive-about-working-with-autism-hr-scheme)

## Dysgu gydag Awtistiaeth – Blynyddoedd Cynnar

Mae'r Rhaglen hyfforddi i'r lleoliad cyfan, sy'n cynnwys pecyn cymorth hunanwerthuso sy'n seiliedig ar fframwaith arolygu Estyn ac AGGCC, fideo hyfforddi, canllaw i leoliadau blynyddoedd cynnar, cartŵn 'Teifi and Friends' i blant ac adnoddau cefnogi am ddim i'w defnyddio ac maent ar gael yma:

[www.ASDinfoWales.co.uk/early-years](http://www.ASDinfoWales.co.uk/early-years)

## Dysgu gydag Awtistiaeth – Ysgolion Cynradd

Mae'r rhaglen hyfforddi i'r ysgol gyfan, sy'n cynnwys pecyn cymorth hunanwerthuso sy'n seiliedig ar fframwaith arolygu Estyn, fideos hyfforddi, canllaw i ysgolion cynradd prif ffrwd, cynllun 'Uwcharwr Awtistiaeth' i blant ac adnoddau cefnogi am ddim i'w defnyddio ac maent ar gael yma:

[www.ASDinfoWales.co.uk/primary-school](http://www.ASDinfoWales.co.uk/primary-school)

## Dysgu gydag Awtistiaeth – Ysgolion Uwchradd

Mae'r rhaglen hyfforddi i'r ysgol gyfan, sy'n cynnwys pecyn cymorth hunanwerthuso sy'n seiliedig ar fframwaith arolygu Estyn, fideos hyfforddi, canllaw i ysgolion uwchradd prif ffrwd, ffilm animeiddiedig 'Sgilti' i ddisgyblion ac adnoddau cefnogi am ddim i'w defnyddio ac maent ar gael yma:

[www.ASDinfoWales.co.uk/secondary-school](http://www.ASDinfoWales.co.uk/secondary-school)

# Adnoddau Defnyddiol

## Pecyn cymorth i Glinigwyr

Mae pecynnau cymorth sy'n seiliedig ar ganllawiau NICE wedi cael eu datblygu. Mae'r pecynnau cymorth yn rhoi trosolwg o arfer gorau ac yn cynnig dolenni i adnoddau – gallwch ddod o hyd iddynt yma:

[www.ASDinfoWales.co.uk/clinicians-toolkit-children](http://www.ASDinfoWales.co.uk/clinicians-toolkit-children)

[www.ASDinfoWales.co.uk/clinicians-toolkit-adults](http://www.ASDinfoWales.co.uk/clinicians-toolkit-adults)

## E-ddysgu i Ddeintyddion

Gellir dod o hyd i gynllun tystysgrif e-ddysgu i ddeintyddion sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sydd ag awtistiaeth yma:

[www.ASDinfoWales.co.uk/videos-for-professionals](http://www.ASDinfoWales.co.uk/videos-for-professionals)

## E-ddysgu i Feddygon Teulu

Gellir dod o hyd i gynllun tystysgrif e-ddysgu i feddygon teulu sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sydd ag awtistiaeth yma:

[www.ASDinfoWales.co.uk/videos-for-professionals](http://www.ASDinfoWales.co.uk/videos-for-professionals)

## E-ddysgu i weithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Proffesiynol

Gellir dod o hyd i gynllun tystysgrif e-ddysgu i weithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sydd ag awtistiaeth yma:

[www.ASDinfoWales.co.uk/asdaware-practitioner-children](http://www.ASDinfoWales.co.uk/asdaware-practitioner-children)

[www.ASDinfoWales.co.uk/asdaware-practitioner-adults](http://www.ASDinfoWales.co.uk/asdaware-practitioner-adults)

## Pecyn cymorth i Ymarferwyr

Mae pecyn cymorth sy'n seiliedig ar ganllawiau NICE ar gyfer cefnogi a rheoli plant ac oedolion sydd ag ASA, ynghyd â dolenni ac adnoddau defnyddiol ar gael yma:

[www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-children-with-asd](http://www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-children-with-asd)

[www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-adults-with-asd](http://www.ASDinfoWales.co.uk/practitioner-toolkit-support-and-interventions-for-adults-with-asd)

## Awtistiaeth yn AMLWG

O fewn y pecyn cymorth, mae adran benodol i gyfeirwyr sy'n cynnwys canllawiau, arwyddion a symptomau ASA ynghyd â sampl o ffurflenni cyfeirio ac adnoddau eraill. Y ddolen uniongyrchol i'r adran hon yw:

[www.ASDinfoWales.co.uk/recognise-asd-child](http://www.ASDinfoWales.co.uk/recognise-asd-child)

[www.ASDinfoWales.co.uk/recognise-asd-adult](http://www.ASDinfoWales.co.uk/recognise-asd-adult)